# Cofnodion y bwrdd wedi eu cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyhoeddus |
| **Lleoliad:** | Gwesty'r Angel, Y Fenni |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Iau 24 Ionawr 2019 |
| **Aelodau'r bwrdd yn bresennol:** | Syr David Henshaw, Cadeirydd<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)<br>Chris Blake<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard C Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth (PaRC)<br>Yr Athro Steve Ormerod<br>Dr Rosie Plummer<br>Syr Peter Rigby |
| **Aelodau'r tîm gweithredol yn bresennol:** | Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De<br>Catherine Love, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu |
| **Pobl eraill yn bresennol:** | Tracey Mayes, Prif Weithredwr Rheolwr Busnes<br>Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru (Eitem 3)<br>Fenn Turner, Uwch-reolwr Cynllunio Adnoddau Naturiol (Eitem 3)<br>Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau (Eitem 4)<br>John Hogg, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De (Eitem 4)<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid (Eitemau 5 a 6)<br>Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth (Eitem 7)<br>Julie Boswell, Cynghorydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Eitem 7) |

**Ysgrifenyddieth:** Jenn Jones

---

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd y cadeirydd aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod, gan gadarnhau y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn hwyluso cynhyrchu cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cadarnhau'r cofnodion. Esboniodd y cadeirydd y byddai cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau ar ddiwedd y cyfarfod.

### Ymddiheuriadau

1.2 Cyflwynodd Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Canolbarth a Gogledd Cymru, ymddiheuriadau oherwydd apwyntiad cyfarfod arall ar yr un pryd.

### Datganiadau o fuddiant

1.3 Dim datganiadau o fuddiant wedi'u gwneud.

---

## 2. Adroddiadau diweddaru is-bwyllgorau statudol

**Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth (PaRC) – Papur CNC B 19.05**

2.1 Gwnaeth Zoe Henderson, cadeirydd PaRC, gyfeirio aelodau at yr adroddiad ysgrifenedig fel y'i cyflwynwyd o'r cyfarfod ar 6 Rhagfyr 2018. Cadarnhaodd cadeirydd y pwyllgor fod aelodau bwrdd newydd wedi mynychu'r cyfarfod ynghyd â Syr David Henshaw (cadeirydd bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru).
Nododd y bwrdd yr adroddiad a gyflwynwyd ac ni chodwyd unrhyw faterion.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) – Papur CNC B 19.06**

2.2 Gwnaeth Karen Balmer (cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) gyfeirio aelodau at yr adroddiad ysgrifenedig fel y'i cyflwynwyd o'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2018. Cadarnhaodd cadeirydd y pwyllgor fod aelodau bwrdd newydd wedi mynychu'r cyfarfod, a nododd y bwrdd yr adroddiad a gyflwynwyd heb godi unrhyw faterion.

**Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur – Papur CNC B 19.07**

2.3 Gwnaeth yr Athro Steve Ormerod, aelod bwrdd a benodwyd i gynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, gyfeirio aelodau at yr adroddiad ysgrifenedig a gyflwynwyd. Cadarnhaodd yr Athro Steve Ormerod fod adroddiad gan yr is-grŵp ardaloedd morol gwarchodedig wedi cael ei drafod ac roedd angen aelod o Gymru. Cymeradwyodd y bwrdd y cais, gan gadarnhau y bydd yr Athro Steve Ormerod hefyd yn cynrychioli Cymru ar Is-grŵp Ardaloedd Morol Gwarchodedig y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

**Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd (FRAMG)**

2.4 Cadarnhaodd Dr Elizabeth Haywood, cadeirydd y grŵp, nad oedd cyfarfod wedi'i gynnal ers yr adroddiad ffurfiol diwethaf i'r bwrdd. Rhoddwyd diweddariad ar lafar yn amlinellu'r canlynol:

- Ardaloedd Draenio Mewnol – bydd ardrethi ac ardollau'n cael eu hystyried o dan Eitem 6 ar Agenda'r Bwrdd

- Rhaglen Gyfalaf Perygl Llifogydd – gofynnwyd i'r bwrdd nodi bod y rhaglen wedi tanwario o £3 miliwn. Gofynnwyd i'r bwrdd gymeradwyo'r cynnig am gais cyllid o £17.6 miliwn ar gyfer 2019/20, a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth. Cadarnhaodd y cadeirydd gymeradwyaeth y bwrdd am y cynnig fel y'i hamlinellir.

2.5 Ceisiodd cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru gadarnhau penodiad aelodau'r bwrdd i bwyllgorau ac is-grwpiau Cyfoeth Naturiol Cymru fel a ganlyn:

- **PaRC** – Zoe Henderson (cadeirydd), Karen Balmer, Howard C Davies, Julia Cherrett
- **ARAC** – Karen Balmer (cadeirydd), Rosie Plummer, Chris Blake, Peter Rigby, Catherine Brown (cadeirydd dros dro)
- **Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig** – Howard C Davies, Elizabeth Haywood, Steve Ormerod, Rosie Plummer
- **Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd** – Elizabeth Haywood (cadeirydd), Chris Blake, Julia Cherrett, Geraint Davies
- **Is-grŵp Cyllid a Chynllunio** – Chris Blake (cadeirydd) – aelodau'r pwyllgor i'w penodi o hyd

Cymeradwyodd y bwrdd y penodiadau i bwyllgorau ac is-grwpiau Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 3. Cyflwyniad ar faterion lleol

3.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De Bennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru a'r Uwch-swyddog Cynllunio Adnoddau Naturiol, gan eu croesawu i roi'r cyflwyniad ar faterion lleol i'r bwrdd. Amlinellodd y cyflwyniad amrywiaeth y dirwedd, seilwaith a diwydiant yn ardal de-ddwyrain Cymru.

3.2 Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y canlynol:

- cyfleoedd integreiddio a ffocws presennol y timau lleol wrth weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- y prosiectau sy'n cael eu darparu gan y timau, a oedd yn dangos llwyddiannau allweddol o ran rheoli anodau naturiol yn gynaliadwy

3.3 Amlygodd y bwrdd y pwyntiau canlynol o'r cyflwyniad a'r fideo:

- Dull enghreifftiol sy'n pwysleisio popeth y mae'r bwrdd yn ymdrechu amdano wrth ryddhau staff trwy waith sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n cael ei gefnogi gan gysondeb yn y fframwaith polisi.
- Mae cael ymreolaeth i geisio, ac weithiau methu, yn allweddol i'r dull hwn ond mae angen, fel sefydliad, ar gyfer fframwaith sy'n cefnogi'r dull hwn.
- Nodwyd absenoldeb fframwaith rheoli risg priodol.
- Mae ymgysylltu â'r sector preifat ac adeiladu a gwella'r perthnasau hynny yn allweddol wrth ddatblygu'r dull hwn.
- Cysylltu â chymunedau – mae adolygiad mawr o'r strategaeth gyfathrebu yn parhau, gyda

phwyslais ar y lleol a lleoedd penodol, a ddylai hefyd gynnwys platfform i wrando.

3.4 Agorodd y cadeirydd y sesiwn i arsylwadau gan y cyhoedd, gan nodi'r canlynol:

- Parodrwydd gan y sector tyfwyr coed siartedig i ymgysylltu â staff Cyfoeth Naturiol Cymru
- Nid yw'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhywbeth y mae'r cyhoedd yn ei ddeall yn eang ac mae'r rhyngweithiad rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Datganiadau Ardal yn bryderus gan fod bwlch ymddangosiadol mewn ardal sy'n ymestyn o Bowys ar draws i arfordir gorllewin Cymru

3.5 Mewn ymateb, rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ddiweddariad ar y broses a ymgymerwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Datganiadau Ardal ar draws Cymru.

## 4. Cynllun Llifogydd y Rhath CNC B 19.08

4.1 Croesawyd Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau a Phennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De i'r cyfarfod gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De.

4.2 Rhoddwyd nodyn briffio byr i'r bwrdd yn manylu ar gefndir y prosiect a'r gwaith a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod Cam 1 a Cham 2, gan gadarnhau bod y gwaith bellach wedi gorffen ar y ddau gam.

4.3 Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De mai'r argymhelliad oedd y dylid Cam 3 y prosiect gael ei ystyried fel cynllun ar ben ei hun, lle gall gwerthusiad o'r opsiynau ac achos busnes gael eu datblygu a'u hystyried yn erbyn blaenoriaethau ehangach ledled Cymru.

4.4. Nododd y bwrdd y canlynol:

- Eglurhad ar y gwrthwynebiad a fynegwyd gan y grwpiau lleol i'r cynllun, gan nodi bod y grwpiau gwrthwynebol yn agored i gyfathrebu cydweithredol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru
- Eglurhad ar yr ymatebion gan ddeiliaid tai lleol a effeithiwyd, a oedd yn gymysg
- Mae tystiolaeth bresennol yn dangos nad oedd anfantais i Gam 1 a Cham 2 os gwnaed y penderfyniad i ailymweld ag opsiynau ar gyfer Cam 3
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau bod perygl o lifogydd i'r ardal o hyd
- Mae angen rhoi ystyriaeth ehangach i randdeiliaid gwahanol, gan gydbwyso'r perygl o lifogydd gyda phryder ehangach y cyhoedd

4.5 Cadarnhaodd y cadeirydd gymeradwyaeth y bwrdd ar gyfer yr argymhellion fel y'u nodwyd yn y ddogfen a gyflwynwyd.

## 5. Adroddiad Cyllid CNC B 19.09

5.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a gadarnhaodd fod disgwyl derbyn llythyr gan

Lywodraeth Cymru a fyddai’n manylu ar newidiadau arfaethedig i gymeradwyaethau Llywodraeth Cymru. Bydd y bwrdd yn derbyn diweddariad ar y newidiadau arfaethedig yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Mawrth.

5.2 Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr Adroddiad Cyllid ar gyfer mis Tachwedd 2018, gan gadarnhau y bydd yr Adroddiad Cyllid ar gyfer mis Rhagfyr, a fydd yn manylu ar yr adolygiad o Chwarter 3, yn cael ei gyflwyno i dîm gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn fuan. Gofynnwyd i'r bwrdd nodi bod olrhain incwm ar darged, bod y rhagolwg incwm pren ychydig yn llai oherwydd lleihad mewn cyfaint, ond y rhagwelir o hyd y byddai’n cyrraedd £25.3 miliwn. Cyfeiriwyd y bwrdd at yr heriau i’r gyllideb wario fel y manylwyd arnynt yn Atodiad A i’r papur.

5.3 Nododd y bwrdd y canlynol:

- Angen i'r adroddiad perfformiad cyllid adlewyrchu gwerth am arian a'r berthynas rhwng adrodd ariannol ac adrodd perfformiad gweithredol
- Angen i fynd i'r afael â'r heriau mewnol sy’n cysylltiedig â thanwariant a gyflwynwyd o fewn Atodiad A
- Awgrymodd y bwrdd i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried gwneud darpariaeth ar gyfer mater IR35/CThEM

5.4 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol fod adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y byddai’n arfer gorau i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ffurfiol. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd darparu sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu. Gwnaed cais i ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Gorffennaf 2019 gael ei adolygu er mwyn galluogi’r newid yn y broses.

***Pwynt Gweithredu:*** *Yr ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i aildrefnu cyfarfod y pwyllgor hwnnw ym mis Gorffennaf fel y’i cynhelir cyn cyfarfod y bwrdd ym mis Gorffennaf i alluogi gwaith craffu gan y pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyn eu cyflwyno i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru am gymeradwyaeth.*

5.5. Nododd y bwrdd yr adroddiad fel y’i cyflwynwyd a chytunodd y broses fel y’i hamlinellwyd ar gyfer cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## 6. Ardollau Byrddau Draenio Mewnol 2019/20 CNC B 19.10

6.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y papur i'r bwrdd, gan nodi y dylai'r eitem ar yr agenda ddwyn y teitl 2019/20.

6.2 Eglurodd y Pennaeth Cyllid gyd-destun y taliadau a'r newidiadau arfaethedig i'r bwrdd o fewn y papur, gan gadarnhau y bydd cais am gymeradwyaeth derfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn ystyriaeth gan y bwrdd.

6.3 Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n trafod yr argymhellion mewn dwy ran: yn gyntaf, y newidiadau i sut fydd praeseptau'r dyfodol ar gyfer Cil-y-coed a Gwynllŵg yn cael eu

cyfrifo; ac yn ail, cymeradwyo cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

6.4 Mae'r cyfrifiad presennol o braeseptau Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg, sy’n cynnwys cyfraniad o 25% tuag at gyfalaf ar amddiffynfeydd prif afonydd a morol y maent yn cael budd ohonynt, yn peri pryder i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Grŵp Cynghori, sy'n cynnwys rhanddeiliaid lleol. Y cynnig yw bod unrhyw gynllun cyfalaf o fewn yr ardal hon yn cael ei ariannu 100% trwy gymorth grant yn y dyfodol, sydd fel cynlluniau eraill a gynhelir yng Nghymru. Oherwydd bod hwn yn newid i gytundeb hanesyddol a gellid ei weld yn gynhennus, mae'r broses briodol wedi'i dilyn. Fel cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, mae Elizabeth Haywood yn fodlon â’r hyn sy'n cael ei gynnig.

6.5 Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod ymgysylltiad cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru wedi'i wneud a'u bod yn gyfforddus gyda'r dull hwn o gymhwyso’r un trefniadau i Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg ag sy’n berthnasol i ardaloedd draenio mewnol eraill yng Nghymru.

**CYMERADWYWYD:** y cais newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol ar gyfer newid y dull o gyfrifo praeseptau ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn y dyfodol.

6.6 Yna amlinellodd y Pennaeth Cyllid y gofyniad ar gyfer y bwrdd i gymeradwyo praeseptau, ardollau arbennig ac ardrethi draenio'r ardaloedd draenio mewnol.

6.7 Cyfeiriwyd at fap o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru, a pha gyllidebau gwariant ac incwm sy'n cael eu priodoli i bob un o’r ardaloedd draenio mewnol. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff gweinyddol ar gyfer yr holl ardaloedd draenio mewnol ac felly mae gofyniad i'r bwrdd gymeradwyo ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau. Tynnwyd sylw at gynigion ardollau arbennig ac ardrethi draenio a'r broses a ddilynir o ran ymgysylltu â grwpiau cynghori a thirfeddianwyr a thrafodaethau gyda'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd. Fel cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, mae Elizabeth Haywood yn fodlon â’r hyn a gynigir.

**CYMERADWYWYD:** y praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig arfaethedig ar gyfer 2019/20 ar gyfer ardaloedd draenio mewnol.

6.8 Trafodaeth ynghylch rôl a diben yr ardaloedd draenio mewnol, a'r broses lle ymgynghorir â grwpiau cynghori’r ardaloedd draenio mewnol ar ardrethi ac ardollau. Awgrymwyd y gall hyn fod yn eitem yn y dyfodol ar gyfer y bwrdd a/neu'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, yn dibynnu ar eu blaenoriaethau wrth osod yr agenda.

**CAM GWEITHREDU:** Ychwanegu ardaloedd draenio mewnol (rôl a diben, a phrosesau ymgynghori) i’r Rhagolwg ar gyfer eitemau ar yr agenda i’r bwrdd a'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd.

6.3 Amlygodd y Pennaeth Cyllid y canlynol:

- Bod cyfrifo’r praesept ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn

bryder i Cyfoeth Naturiol Cymru a grŵp cynghori’r ardal draenio mewnol. Y cynnig yw bod unrhyw gynllun cyfalaf o fewn y rhanbarth hwn yn cael ei ariannu 100% trwy gymorth grant. Gan fod hwn yn newid i gytundeb hanesyddol, a gellid ei weld yn gynhennus, mae'r broses briodol wedi'i dilyn. Fel cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, cadarnhaodd Dr Elizabeth Haywood ei bod yn cytuno â'r cynnig. Cadarnhawyd bod ymgysylltiad cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru'n cadarnhau eu bod yn fodlon â'r dull arfaethedig.

***CAM GWEITHREDU:*** *Gofynnodd y bwrdd i'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd ystyried effeithiolrwydd y broses o fynd i'r afael â materion mewn mwy o fanylder yn ei gyfarfod nesaf – Jeremy Parr / Dr Elizabeth Haywood.*

6.4 Cynigiodd y bwrdd drafodaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol i drafod ariannu tir adferedig yn barhaus.

***CAM GWEITHREDU:*** Trafodaeth ar ariannu tir adferedig yn y dyfodol i'w chynnal mewn cyfarfod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol. Ceri Davies / Jeremy Parr i gynnig dyddiad y cyfarfod; yr ysgrifenyddiaeth i nodi hwn ar y Rhagolwg.

6.5 Adolygodd y bwrdd fap o'r ardaloedd draenio mewnol o fewn Cymru, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff gweinyddol ar eu cyfer. Nododd y bwrdd yr ardollau arbennig ac ardrethi draenio arfaethedig a’r broses a ddilynwyd wrth ymgysylltu â grwpiau cynghori a thirfeddianwyr. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod trafodaethau gyda chadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, Dr Elizabeth Haywood, wedi cadarnhau cytundeb gyda'r cynnig fel y’i cyflwynwyd i'r bwrdd.

6.6 Cadarnhaodd y cadeirydd gymeradwyaeth y bwrdd ar gyfer yr argymhellion yn y papur fel a ganlyn:

**CYMERADWYWYD:** y praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig arfaethedig ar gyfer 2019/20 i ardaloedd draenio mewnol.
**CYMERADWYWYD:** y cais newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol ar gyfer newid y dull o gyfrifo praeseptau ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn y dyfodol.

## 7. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol II CNC B 19.11

7.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y Pennaeth Tystiolaeth a chynghorydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i gyfarfod y bwrdd. Amlinellwyd i'r bwrdd mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r unig sefydliad ledled y byd sydd â’r cyfrifoldeb o lunio adroddiad sy'n arddangos y rolau cynghori ac eirioli, ac o ran darparu sylfaen dystiolaeth, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyflawni. Ystyrir yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgylchedd yn y Comisiwn Ewropeaidd fel enghraifft o arfer gorau.

72 Mae’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn sail i ddulliau allweddol ar gyfer llunio polisi a gwneud penderfyniadau ledled Cymru, megis y Polisi Adnoddau Naturiol, ac mae’n darparu’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac

adroddiad tueddiadau'r dyfodol.

7.3 Rhoddodd y Pennaeth Tystiolaeth gyflwyniad i'r bwrdd yn egluro datblygiad a rôl yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf ac yn cadarnhau'r camau datblygu arfaethedig ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Nid yw'r adroddiad yn adroddiad amgylcheddol ond yn adroddiad ar lesiant pobl; mae'r adroddiad hefyd yn cofnodi pa mor dda yw ein perfformiad wrth gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

7.4 Amlinellodd y bwrdd y canlynol:

- Argymhelliad fod y cynllun ymgysylltu'n eistedd o fewn gwaith ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
- Angen i asesu'r gofynion o ran adnoddau, gan roi ystyriaeth i fesurau llwyddiant
- Mae angen i gydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu pwysleisio a'u hystyried yn ehangach
- Angen i sicrhau bod y cyhoedd yn ymgysylltu â'r mecanweithiau priodol sydd ar waith ar gyfer cyflawni ymgysylltiad o werth
- Mae asesu gwydnwch ecosystemau a statws adnoddau naturiol yn heriol, ac yna mae'n rhaid i hyn gysylltu ag iechyd a llesiant
- Cyfle i Grŵp Cynghori ar Dystiolaeth Wyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu adolygiad o safon a chywirdeb y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r adroddiad
- Derbyniodd y bwrdd gyfrifoldeb am unrhyw ddehongliad gwleidyddol neu economaidd o'r dystiolaeth
- Cyfleoedd ar gyfer mapio a rhyngweithio ledled Cymru i gael eu hadlewyrchu o fewn Datganiadau Ardal

7.5 Cymeradwyodd y cadeirydd yr argymhellion o fewn y papur, gan nodi'r camau gweithredu canlynol:

**CAM GWEITHREDU:** *Ysgrifenyddiaeth i nodi y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn eitem barhaol ar agenda bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.*
***CAM GWEITHREDU:*** *Bydd y bwrdd yn ymgysylltu â Catherine Love i drafod a datblygu cyfleoedd i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.*
***CAM GWEITHREDU:*** *Tîm yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i drefnu seminar yn y dyfodol agos ar gyfer aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid.*

**Croesawodd y cadeirydd gwestiynau ac arsylwadau gan y cyhoedd:**

Y pynciau a drafodwyd oedd:

- Y cyflwyniadau diddorol a gwybodus a wnaed yn y cyfarfod.
- A oedd y ffocws ar lesiant o ran yr amgylchedd wedi tynnu'r ffocws oddi ar iechyd hirdymor yr ecosystem. Ymatebodd Ceri Davies i gadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddarparu gwybodaeth i gefnogi ei dealltwriaeth o natur ategol ecosystemau a llesiant i Gymru.
- Mynegwyd pryderon am Gynllun Llifogydd y Bala ac a oes datgysylltiad rhwng y dyluniad a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Cadarnhaodd y prif

weithredwr fod y bwrdd wedi trafod y cynllun yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Tachwedd, gan nodi bwriad Cyfoeth Naturiol Cymru o ddysgu gwersi o'r cynllun ynghylch ymgynghori.

- Sut dangosodd y gwaith a wnaed ar fferm wynt Pen y Cymoedd y ffordd y gall byd busnes weithredu fel dolen rhwng cymunedau ac amcanion llesiant cyffredinol Cymru. Estynnwyd gwahoddiad i'r bwrdd ymweld â safle fferm wynt Pen y Cymoedd, a nodwyd hyn.

**Cau'r cyfarfod.**